Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Talsarnau
# Neuadd Gymuned Talsarnau
# Talsarnau
# Gwynedd
# LL47 6TA

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014**

**gan**


**Wil Williams**
**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/07/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Talsarnau yn lleoliad meithrin cofrestredig cyfrwng Cymraeg sydd yn darparu addysg cyn-ysgol i blant pentref Talsarnau a'r ardal wledig o'i gwmpas. Mae'n cyfarfod yn neuadd gymuned y pentref sydd ar bwys yr ysgol gynradd leol.

Mae un deg chwech o blant rhwng dyflwydd a hanner a phedair oed yn mynychu'r lleoliad. Ar hyn o bryd, mae chwech o'r plant yn dair oed ac yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol. Mae'r lleoliad yn darparu pum sesiwn wythnosol o ddwy awr am 39 wythnos y flwyddyn. Daw oddeutu hanner y plant o gartrefi lle siaradir Cymraeg fel prif iaith yr aelwyd.

Mae'r lleoliad yn derbyn plant o bob gallu a chefndir i'r sesiynau. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol nag o dras ethnig yn mynychu'r lleoliad.

Mae plant yn cael eu haddysgu gan arweinydd ac un ymarferydd. Mae'r ddwy yn gweithio'n llawn amser ac wedi'u cymhwyso'n briodol ar gyfer addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru ym Mai 2013 a chan Estyn yng Ngorffennaf 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yn dda oherwydd bod:

- profiadau dysgu cyfoethog yn llwyddo i gyfarfod ag anghenion a diddordebau plant ar draws yr holl ystod gallu;
- darpariaeth dda ar gyfer sicrhau bod plant yn caffael y medrau llythrennedd a rhifedd angenrheidiol;
- addysgu da yn annog ymrwymiad a mwynhad plant mewn dysgu;
- asesu systematig yn arwain at gynllunio mwy effeithiol ar gyfer datblygiad plant yn y dyfodol;
- ymarferwyr yn cymryd gofal mawr o blant ac yn sicrhau bod y lleoliad yn fan cyfforddus a diogel iddynt ddysgu a chwarae ynddo; a'r
- lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal i'r holl brofiadau dysgu

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer datblygiad y lleoliad;
- staff yn gweithio'n agos iawn fel tîm ac yn rhannu gwerthoedd cyffredin am ddysgu;
- y pwyllgor rheoli yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau yn gydwybodol iawn;
- ymarferwyr yn hunan arfarnu ac yn ymchwilio i ffyrdd o wella'n barhaus;
- amrediad da o weithgareddau partneriaeth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gyflawniad a lles plant; a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

1. Cynyddu'r ystod o adnoddau sydd yn yr ardal chwarae rôl.
2. Rhoi mwy o arweiniad yn y llawlyfr ynghylch sut y gall rhieni helpu eu plant gartref.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**
Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1:  Pa mor dda yw'r deilliannau? | Barn |
| --- | --- |

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles.  Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
| --- | --- |

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae profiadau dysgu diddorol ac ysgogol yn bodloni anghenion a diddordebau'r holl ystod o blant yn llwyddiannus ac yn eu hannog i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd da ar draws pob maes dysgu.  Mae'r cynlluniau hir dymor sy'n seiliedig ar gyfres o themâu, yn sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau cyfredol plant. Enghraifft dda o hyn yw'r  amrediad eang o weithgareddau symbylus a gaiff plant wrth iddynt ddilyn thema gyfredol y dosbarth ar 'Glan y Môr.'  Mae hyn yn galluogi bron pob plentyn i wneud cynnydd da tuag at gyfarfod deilliannau'r Cyfnod Sylfaen ac i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu

Mae natur ymarferol a phenagored y profiadau dysgu yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant i lunio perthnasau cadarnhaol gyda'i gilydd ac i hybu synnwyr o barch a goddefgarwch tuag at eraill.  Mae ymarferwyr yn annog pob plentyn i fentro ac arbrofi gyda phrofiadau newydd ac i archwilio eu hamgylchedd yn hyderus.  Mae hyn yn cyfrannu'n allweddol tuag at ddatblygiad y plant fel dysgwyr annibynnol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd plant yn dda.  Wrth iddynt gymryd rhan mewn sesiynau torfol, megis trafod eu 'bag trysor, caiff plant eu hannog i wrando'n ofalus ar safbwyntiau plant eraill ac i gyfrannu'n adeiladol i'r drafodaeth.  Mae'r cyfleoedd dyddiol sydd i blant wrando ar storïau ac i ymdrin â llyfrau'n annibynnol, yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at eu datblygiad fel darllenwyr.  Serch hynny, nid oes digon o amrywiaeth o adnoddau yn yr ardal chwarae rôl ar gyfer hyrwyddo medrau llafaredd a darllen plant.

Mae cyfleoedd priodol yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd dysgu, dan do a'r tu allan, i blant arbrofi gyda gwneud marciau ac i ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar.  Mae llawer o'r plant yn gwneud defnydd dychmygus o dabledi electronig ar gyfer ymarfer eu medrau rheoli.

Mae'r lleoliad yn creu cyfleoedd da, yn aml mewn sefyllfaoedd anffurfiol, i blant ddatblygu a defnyddio eu medrau rhifedd.  Yn ystod sesiynau ar y carped, maent yn trafod trefn dyddiau'r wythnos, yn cyfrif gwrthrychau cyfarwydd ac yn defnyddio eu bysedd i ddangos eu hoedran.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer yr iaith Gymraeg gydag anogaeth gref i ddysgwyr yr iaith ddefnyddio Cymraeg cymaint ag y gallent.  Mae ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau diwylliannol Cymru yn cael ei ddatblygu mewn ffordd ystyrlon a diddorol.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu plant. Mae'r amgylchedd symbylus, llawn sialens a chyffrous y mae'r lleoliad yn creu yn annog ymrwymiad, cyfranogiad a mwynhad plant. Caiff profiadau dysgu eu haddasu'n fedrus i gyfarfod ag anghenion yr holl blant, gan gynnwys y rhai mwy abl a thalentog a'r rhieni sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn gwybod pryd i ymyrryd yn dysgu plant ac yn gwneud hynny'n sensitif a medrus er mwyn annog plant i osod sialens iddynt eu hunain wrth ddysgu. Mae cydbwysedd da'n cael ei gynnal rhwng gweithgareddau o ddewis y plant a rhai dan arweiniad ymarferydd. Caiff defnydd dychmygus ei wneud o amrywiaeth o adnoddau er mwyn apelio at ddiddordeb plant a gwella dysgu. Mae'r ffocws clir sydd i gefnogaeth oedolion yn gwneud cyfraniad arwyddocaol tuag at ansawdd dysgu plant.

Mae arsylwi systematig a chofnodi dysgu plant yn galluogi ymarferwyr i gadw llygaid gofalus ar gynnydd pob plentyn a chynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer eu datblygiad yn y dyfodol. Pe bai rhieni eisiau trafod cynnydd neu les eu plentyn, mae ymarferwyr bob amser ar gael iddynt ar ddechrau a diwedd pob sesiwn. Ar ddiwedd cyfnod eu plentyn yn y lleoliad, mae pob rhiant yn derbyn cofnod ffotograffig, gan gynnwys cryno ddisg, o gynnydd eu plentyn yn y chwe maes dysgu. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ymarferwyr yn cymryd gofal mawr o blant ac yn sicrhau bod y lleoliad yn fan cyfforddus, cartrefol a diogel iddynt ddysgu a chwarae ynddo. Mae plant yn cael eu hannog i edrych ar y lleoliad fel cymuned lle mae pobl yn dysgu byw gyda'i gilydd mewn cytgord. Mae ymarferwyr yn adnabod plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau. Mae arferion bwyta iach, yn ogystal ag arferion hylendid, er enghraifft golchi eu dwylo, a gweithgaredd corfforol dyddiol yn cael eu hybu'n llwyddiannus a'u cefnogi'n dda gan rieni.

Yn ystod eu hymwneud dyddiol â phlant, mae ymarferwyr yn pwysleisio'n gryf yr angen i bawb fod yn garedig tuag at y naill a'r llall, bod yn onest a theg ac i ymddwyn mewn modd cyfrifol. Mae hyn yn gymorth mawr i blant ddysgu'r gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn nad yw. Mae'r cyfleoedd cyson sydd i blant ymgymryd â chyfrifoldebau ac i wneud penderfyniadau eu hunain am eu dysgu yn cyfrannu'n dda i'w datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae trefniadau addas yn y lleoliad ar gyfer ailgylchu a lleihau sbwriel.

Mae trefniadau anwytho effeithiol yn cynorthwyo plant i ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn wybyddus iawn ynghylch sut i gael mynediad i gymorth proffesiynol ar gyfer plant a rhieni. Mae prosesau effeithiol ar gyfer adnabod plant sydd ag anghenion dysg ychwanegol yn gynnar fel bod cynhaliaeth ychwanegol yn cael ei ddarparu ar eu cyfer os oes angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant fynediad cyfartal at feysydd dysgu a gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar a sicrhau bod plant a staff yn rhydd o unrhyw ymyrraeth. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr gyda gwybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Llwydda ymarferwyr i greu amgylchedd symbylus lle gall pob plentyn fanteisio’n llawn ar brofiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae cyflenwad digonol o adnoddau o ansawdd da sy’n galluogi ymarferwyr i gyflawni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae adnoddau yn y gymuned, er enghraifft y parc lleol, yn cael eu defnyddio’n effeithiol gan staff i gefnogi dysgu yn y dosbarth.

Mae’r adeiladau a’r ystafelloedd o ansawdd da ac yn hygyrch i rieni a phlant, gan gynnwys yr anabl. Mae’r ystafell ddosbarth eang yn darparu amgylchedd cyfforddus a symbylus ar gyfer addysgu a dysgu. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd gorau posib o’r ardal y tu allan i gyfoethogi profiadau dysgu plant ac i hybu eu medrau corfforol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer datblygiad y lleoliad. Mae hi’n cyfleu disgwyliadau uchel ac yn cefnogi ac yn herio pob un i wneud eu gorau. Mae’r ethos cadarnhaol sy’n treiddio trwy’r lleoliad yn sicrhau bod plant a staff yn teimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae’r arweinydd a’r ymarferydd yn gweithio’n agos iawn fel tîm ac maent yn rhannu gwerthoedd cyffredin ynghylch dysgu, ymddygiad a pherthnasau. Gwnânt yn siŵr bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu’n llwyddiannus. Mae eu parodrwydd i weithredu ar gyngor yr awdurdod lleol ac i ymgymryd â blaenoriaethau cenedlaethol a mentrau newydd, megis asesu ar gyfer dysgu, yn gryfder.

Mae’r arweinydd wedi sefydlu nodau a pholisïau eglur sy’n canolbwyntio ar anghenion plant ac sy’n cael eu gweithredu’n gydwybodol gan yr holl staff. Mae’r berthynas gadarnhaol gyda phlant, rhieni a staff yr ysgol gynradd yn cyfrannu’n sylweddol tuag at greu synnwyr o gymuned. Mae cyfundrefn rheoli perfformiad priodol sy’n cynorthwyo staff i arfarnu a gwella eu harfer ac adnabod eu hanghenion proffesiynol.

Mae’r pwyllgor rheoli yn ymgymryd â’i gyfrifoldebau yn gydwybodol iawn ac yn chwarae rôl weithredol yn natblygiad y lleoliad. Mae’r pwyllgor yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni trwy gylchlythyrau a chyfarfodydd ac yn cefnogi’r arweinydd yn ei gwaith. Mae aelodau’r pwyllgor yn sicrhau bod unrhyw gwynion yn cael eu datrys ar unwaith a bod y lleoliad yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunan arfarnu wedi gwreiddio'n gadarn yn y lleoliad ac wedi bod yn offeryn allweddol ar gyfer codi safonau a gwella'r ddarpariaeth. Trwy hunan arfarnu parhaus, mae ymarferwyr yn gwybod yn dda am gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn dadansoddi sefyllfa gyfredol y lleoliad yn briodol ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol ar gyfer pennu blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae'n gosod strwythur clir ar gyfer rhoi'r blaenoriaethau ar waith ac yn sicrhau bod trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer arfarnu effaith y gwelliannau ar safonau a darpariaeth.

Mae'r arweinydd yn gwerthfawrogi barn rhieni a phlant ac yn darparu cyfleoedd cyson iddynt fynegi barn am y lleoliad. Mae'r lleoliad yn ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i unrhyw sylwadau a wneir gan rieni unigol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gweithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n dda at gyflawniadau a lles plant. Mae'r arweinydd yn cymryd camau gweithredol i geisio cynnwys rhieni yn holl weithgareddau'r lleoliad a thrwy lythyrau ac e-bost, yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am bob agwedd ar waith y lleoliad. Er bod llawlyfr rhieni yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ond nid yw'n cynnig digon o arweiniad i rieni ynghylch sut y gallant helpu eu plant gartref.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau agos iawn gyda'r ysgol gynradd ac mae trefniadau effeithiol ar gyfer trosglwyddo plant i'r Cyfnod Sylfaen ar ddiwedd eu hamser yn y cylch meithrin. Mae perthynas cynhyrchiol hefyd gyda'r gymuned gyda nifer o bobl leol yn ymweld â'r lleoliad.

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer dda o wasanaethau cynhaliol yr awdurdod lleol i gydlynu a chyflwyno profiadau dysgu ac i sicrhau bod cymorth priodol ar gael i blant a rhieni. Mae ymweliadau rheolaidd a chyngor proffesiynol yr athrawes gefnogol yn galluogi'r arweinydd i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth broffesiynol ac i arbrofi gyda blaengareddau newydd.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol ar blant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae staff ac adnoddau'n cael eu rheoli'n fedrus iawn gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli gan sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn llyfn ac yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae hyn wedi'u galluogi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd ac i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu gref. Mae ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac yn fodlon arbrofi gyda ffyrdd gwahanol o weithio a rhannu eu gwybodaeth gydag eraill o fewn y lleoliad.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth gadarn o gyllideb y lleoliad ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Maent yn arfarnu penderfyniadau gwariant yn ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant.

Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |